OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1581

# Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## RHAN 3

Diwygio is-ddeddfwriaeth Cymru

**Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2009**

**8.**—(1) Mae Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2009(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1)—

(a) yn y diffiniad o "mewnforio", yn lle "o Aelod-wladwriaeth arall neu o wlad arall y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd" rhodder "o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig";

(b) yn y diffiniad o "rhif cyfeirnod swyddogol", yn lle "rhif cyfeirnod a ddyrennir gan yr Aelod-wladwriaeth mewn cysylltiad â chael ei gymeradwyo fel cyfleuster arbelydru (sef y rhif a ddangosir ar ei gyfer yn y rhestr yn Atodlen 3)" rhodder "rhif a ddangosir ar ei gyfer yn y rhestr yn Atodlen 3".

(3) Yn rheoliad 5(1)—

(a) Yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) ei fod wedi'i arbelydru yn un o'r cyfleusterau a restrir yn y Tabl yn Atodlen 3 neu Atodlen 4;";

(b) Yn is-baragraff (ch), hepgorer "arall".

(4) Yn lle'r pennawd i Atodlen 3, rhodder—

*"RHESTR O GYFLEUSTERAU YN AELOD-WLADWRIAETHAU YR UE AC YN Y DEYRNAS UNEDIG".*

(**1**) O.S. 2009/1795 (Cy. 162), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1043, 2018/806 (Cy. 162); mae offeryn diwygio arall ond nid yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.